# Cyngor Cymuned Pentir

**Cofnodion cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid yng Nganolfan Gymued Penrhos**
**am 7.00pm Nos Fercher 31ain o Ionawr 2024**

1. Presennol Cyng L A James (Cadeirydd) Cyng J Pierce Cyng D Jones-Morris Cyng J Lewis, Cyng B. Jones Cyng I Ellis a'r Clerc

2. Ymddiheuriadau Pawb yn bresennol

3. Cod Ymddygiad Cyng L A James yn ymddiriedolwraig Canolfan Penrhos Cyng J Pierce yn mynychu Cylch Glasinfryn oedd wedi anfon cais am nawdd

4. Cofnodion Cyfarfod diwethaf 29 -11-2023

5. Materion yn codi o'r cofnodion
Dim nad oedd wedi ei gynnwys o fewn yr Agenda

6. Adroddiad Ariannol
    - Mantolen Ariannol
    Trafodwyd y fantolen oedd wedi ei rhannu ag yn dangos bod £14,946.66 yn y Cyfrif Cyfredol a £40,784.12 yn y cyfrif Cadw yn dilyn debyn llog o £196.31
    - Cyllideb 2024-25 Cadarnhawyd bod Cais wedi ei anfon am gyllideb o £55K ar gyfer 2024-25 a bod cyfnabyddiaeth o dderbyn y cais wedi ei dderbyn yn ol

7. Cofrestr Risg/Polisia
    a) Newidiadau o'r is-grwp
    Bu cyfarfod o'r is-grwp i edrych dros ein cofrestr Risg a bellach mae cryn dipyn o newidiadau wedi eu gwneud ac wedi eu trafod/cyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid heno. Argymhelliad yr Is-Grwp yw bod y newidiadau sydd wedi eu amlygu mewn melyn yn cael eu derbyn cael eu cyfieithu a'i cyflwyno i'r Cyngor Llawn

Mae'r risgiau sydd mewn ysgrifen goch ddim eto mewn lle ag angen cytuno pwy a pha bryd fyddan ni'n cwblhau hyn

b. Camau nesaf

Derbynwyd yr argymhellion gan yr Is-Bwyllgor heno a cytunwyd y byddai yr Is-Grwp yn cyfarfod eto i drafod y risgiau mewn coch
Cytunodd y Cyng L A James i ail anfon y gofrestr i'r Clerc gan dynnu allan yr amlygu melyn fel y gellir ei anfon wedyn at ein Cyfieithwyr

8. Cadarnhau Taliadau a taliadau angen sylw
Argymhellwyd talu Cyflog £ 651.84 H M R C £ 163.00
Cymen Cyfieithu Hydref £ 194.11 a Tachwedd £199.72
Cyngor Gwynedd Gwaith Trydannol y Goeden Dolig £420.00
Swyddfa Tynnu a gwaredu y Geoden Dolig £25.00

9. Ceisiadau Nawdd
Goriad - Wedi ei drafod yn y Cyngor llawn Cymeradwyo £300
Argymell Grwp Arlunio Glasinfryn £300 Grwp Ioga Glasinfryn £300
Canolfan Glasinfryn £300 Cylch Glasinfryn £300
Dawns i bawb Trafodwyd priodoldeb cyfrannu i gwmni sydd ddim yn y gorffennol wedi bod yn derbyn nawdd gan Cyngor Pentir ond eleni gan fod cyfeiriad at eu bod yn gweithio yn lleol yn Ysgol Llandegai lle bydd plant o'r ardal yn mynychu i gyfranu £150 iddynt

Gwariant 23-24

Rhanwyd rhestr o'r cyfraniadau Nawdd sydd wedi eu rhannu am 2023-24 sy'n dangos fod £1,500 yn weddill os bydd y Cyngor llawn yn cymeradwyo argymhellion heno

Eglwys St Cedol at dori'r fynwent

Dim amcanbris wedi ei dderbyn ond cadarnhad bod y contractwr wnaeth y gwaith tua 5 mlynedd yn ol wedi codi £1500

**Cytunwyd hefo dau fis o'r flwyddyn ariannol i fynd peidio dod i benderfyniad ar y cais hwn tan y Mis olaf**

10. Prosiectau

i. Ysgol Y Faenol

Cyfarfod rhithiol wedi bod 11eg o Rhagfyr ond dim diweddariad ers hynny a dim cyswllt wedi digwydd rhwng ein cyfreithiwr a chyfreithwyr Cyngor Gwynedd er addewid y byddai hynny yn digwydd

ii. Capel y Fynwent

Y cynlluniau wedi cyrraedd a'u rhanu yn dangos yr angen i gadw'r llwyfan/pulpud oherwydd na fyddai posib ymestyn teils sy'n bodoli lawr yr eil ymhellach **Derbyn y cynlluniau** Bydd angen mynd yn ol at y contarctwyr oedd wedi rhoi amcanbris gan fod cymaint o amser wedi mynd ers hynny

_11 I'w trafod hefyd

Sedd ar IBC yn dilyn ymddiswyddiad Dewi

Cytunwyd gan fod 6 aelod eisioes ar yr Is Bwyllgor yma i adael y mater tan y Cyfarfod Blynyddol yn Mis Mai 2024